Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mawrth 12fed 2025

**Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths, S.Jones

**Cofnodion Chwefror 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Mrs Gwen James- Talodd y Cynghorydd Dixon deyrnged i Mrs Gwen James, cyn-gynghorydd hirsefydlog a fu farw'n ddiweddar. Dywedodd y Cynghorydd Dixon fod meddyliau a chydymdeimlad y cyngor gyda theulu Mrs James.

Gwefan Neuadd y Pentref- mae swyddogion neuadd y pentref wedi penderfynnu gosod rhyngrwyd yn neuadd y pentref. Cymeradwyodd y cyngor y penderfyniad hwn gan y bydd yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael mynediad at gyfarfodydd y cyngor.

Ffordd Gelligemlyn- Nid yw’r cyngor wedi bod i’r ardal i glirio’r dail a.y.y.b

Caru Coed y Brenin.

Cadarnhad fod y café a’r siop Coed y Brenin yn cau ar 31af o fis Mawrth er mwyn arbed arian i CNC.

Mae CNC wedi gwahodd tendrau ar gyfer pobl sy'n dymuno gwerthu lluniaeth ysgafn (o fan).

**Cynghorwr Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Chwerfor 2025

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3799.30 |
| Derbyniwyd: | |
| Ad daliad TAW | £282.25 |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.00 |
| Yn y Banc diwedd mis | £3976.55 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae adran gyllid Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gynnal archwiliad mewnol y cynghorau.

Wedi trafodaeth fydd y cyngor yn dosbarthu'r roddion canlynol;

Capel Libanus-£100

Neuadd y pentref -£250

CFFI -£50

Cytunodd y cyngor bod yr anfonebau canlynol i'w talu;

E.Ap Gomer -y wefan £233.88

Defib store (batteries) £66.00

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru (aelodaeth) | £37.00 |
| Awdit Cymru | £266.00 |

**Materion cymunedol.**

Yn dilyn sawl achos lle mae y cyngor cymuned wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am ddiffygion ffyrdd a phroblemau cysylltiedig eraill yn y gymuned ac heb dderbyn ymateb nac wedi gweld unrhyw gamau wedi'u cymryd mewn perthynas â'r problemau hyn, bydd y cyngor yn gofyn i gwrdd â Mr Adrian Williams, Pennaeth Adran, i ddod o hyd i ateb addas.

Ffordd Cefndeuddwr- Clerc i gysylltu a'r adran priffyrdd i gael gwybodaeth ynghylch pam ac am ba hyd y bydd y ffordd yma ar gau.

Dolfrwynnog, Hermon.

Clerc i gysylltu a CNC o ran y cyflwr gwael mae'r maes parcio a'r arwyddion rhwng Byngalo Hermon a Dolfrwynnog Newydd wedi cael eu gadael i mewn ers i waith coedwigaeth gael ei wneud yn yr ardal.

**Mater ychwanegol.**

Yn ystod y misoedd diwethaf mae nifer y cynghorwyr sydd yn mynychu'r cyfarfod wedi disgyn yn is na'r nifer sydd angen i greu cworwm.

Mae'r amgylchiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cyngor cymuned gynnal ei fusnes, aros o fewn y rheolau llywodraethu a chyflawni'r tasgau sy'n ofynnol i gyngor cymuned.

Er mwyn cywiro'r sefyllfa hon, mae'r cyngor yn gofyn i'w holl aelodau ystyried eu sefyllfa a phenderfynu a ydyn nhw'n dymuno parhau o fewn y rôl. Bydd y mater hwn yn cael ei godi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai pan ofnir i gynghorwyr nad ydynt am barhau i hysbysu y cyngor.